

Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,
Ward Padarn a Ward Peblig, Ysbyty Eryri

11 a 12 Rhagfyr 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebst: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Hanfodion Gofal.....	7
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	18
6.	Y Camau Nesaf.....	21
	Atodiad A.....	22

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd ynghylch urddas a gofal hanfodol ar Ward Padarn a Ward Peblig yn Ysbyty Eryri, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 11 a 12 Rhagfyr 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol
-

2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn hefyd dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal ac urddas hanfodol.

3. Cyd-destun

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n darparu ystod o wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, a gwasanaethau aciwt i ysbytai. Mae'r Bwrdd yn gwasanaethu poblogaeth o tua 676,000 o bobl ar draws chwe sir gogledd Cymru, sef Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, yn ogystal â rhannau o ganolbarth Cymru, Swydd Gaer a Swydd Amwythig.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am dri ysbyty cyffredinol: Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae hefyd 18 o ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol eraill ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys Ysbyty Eryri, Lôn Parc, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2YE.

Adeiladwyd Ysbyty Eryri yn wreiddiol yn 1913. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys clinigau ar gyfer cleifion allanol, adrannau ffisiotherapi a therapi lleferydd, ystafell gynadledda a dwy ward ar gyfer cleifion mewnol, sydd yn bennaf yn darparu gwasanaethau adsefydlu ar gyfer pobl hŷn a ryddhawyd o Ysbyty Gwynedd.

Archwiliom y ddwy ward ar gyfer cleifion mewnol yn ystod yr arolygiad hwn. Y rhain oedd: Ward Padarn, sy'n darparu gofal ar gyfer hyd at 20 o gleifion benywaidd a Ward Peblig, sy'n darparu gofal ar gyfer hyd at 14 o gleifion, gan gynnwys wyth claf gwrywaidd a hyd at chwe chlaf gwrywaidd/benywaidd sy'n derbyn gofal nyrsio lliniarol mewn ystafelloedd sengl ag iddynt *en suite*. Ar adeg yr arolygiad hwn nid oedd dau wely'n cael eu defnyddio ar Ward Padarn yn sgil prinder staff, ac roedd y Bwrdd yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ymgyrchoedd recriwtio.

4. Crynodeb

Mynegodd yr holl gleifion a pherthnasau eu bod yn hapus gyda'r driniaeth a dderbynnir yn Ysbyty Eryri, a bod y staff yn garedig a gofalgar.

Gwnaethom arsylwi bod staff yn trin cleifion yn barchus; roeddent yn gwrtais ac yn ofalus o anghenion y cleifion. Gwelsom arferion gwaith nodedig, gan gynnwys cyfleusterau i helpu cleifion i adennill eu hannibyniaeth, y llyfrau cyfathrebu a ddefnyddir gyda chleifion a'r cymorth a roddir gyda gofal toiled ac ymataliaeth y cleifion.

Rydym wedi gwneud argymhellion, fodd bynnag, i'r bwrdd iechyd ystyried amrywiaeth ehangach o ffyrdd cyfathrebu addas ar gyfer cleifion sydd ag anghenion ychwanegol, ac i sicrhau bod cyfathrebiadau ysgrifenedig wedi'u diweddarau.

Er bod amseroedd ymweld penodol gwelsom fod hyblygrwydd a bod perthnasau'n gallu ymweld y tu hwnt i'r amseroedd hyn, ac aros dros nos pan oedd hynny er budd y claf. Sylwom yn gyffredinol fod y ward yn amgylchedd addas i gleifion orffwys a chysgu yn ystod y dydd.

Wrth sgwrsio â chleifion nodwyd bod eu hanghenion glendid personol yn cael eu diwallu. Gwelsom fod cleifion yn ymddangos yn drwsiadus ac yn amlwg yn cael gofal da. Roedd gan gleifion ddewis o brydau ac ni frysiwyd amser bwyd. Rydym wedi argymhell gwelliannau o ran cydlynu'r amser bwyd ac, yn achos Ward Peblig, wrth gofnodi hylifau, prydau a rheoli poen.

Gwelsom fod asesiadau'r cleifion yn cynnwys unrhyw gymorth angenrheidiol gydag iechyd y geg a gofal ymataliaeth, ac roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael eu cefnogi'n dda yn y meysydd hyn. Câi'r cleifion eu trin ag urddas am eu bod yn cael cymorth i fynd i'r toiled, ac felly nid oedd angen iddynt ddefnyddio'r comôd y tu ôl i'r llenni wrth y gwely. Wrth adolygu'r ddogfennaeth gwelwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud rhag bod pobl yn datblygu briwiau pwyso.

Wrth graffu ar gofnodion asesu a chynllunio gofal gwelwyd tystiolaeth o gofnodi rhagorol gan y staff nyrsio a gofal iechyd. Rydym wedi argymhell gwelliannau i gofnodion therapi, a oedd yn ymwneud yn benodol ag un aelod o staff.

Nid oedd gan gleifion fynediad hawdd at y weithdrefn gwyno, ac roedd angen diweddarau'r daflen a welsom. Gwnaethom argymhell felly bod gweithdrefn gwyno gyfredol ar gael.

Ar adeg ein harolygiad roedd gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r strwythur rheoli cyffredinol ar gyfer Ysbyty Eryri, a chaiff AGIC ei hysbysu o'r canlyniad maes o law.

Er inni weld bod y staff yn garedig a gofalgar gyda'r cleifion a bod y gofal yn cael ei gyflenwi'n dda, nid oedd y lefelau staffio bob amser yn ddigonol i roi'r

gofal adsefydlu sydd ei angen ar y cleifion. Anfonodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith at y bwrdd iechyd lleol yn syth ar ôl yr arolygiad. Roedd hwn mewn perthynas â lefelau staffio a hyfforddiant staff. Mae ymateb y bwrdd iechyd lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn yn cael ei ddilyn gan AGIC.

Arsylwom ar rownd feddyginiaeth ar Ward Padarn yn ystod yr arolygiad, ac at ei gilydd gwelsom dystiolaeth o weithdrefnau meddyginiaeth diogel ac effeithiol. Rydym wedi argymhell gwelliannau yn ymwneud ag archwilio cofnodion rhoi meddyginiaeth a chyffuriau a reolir.

Roedd dystiolaeth bod archwiliadau cyson yn cael eu cynnal ar raddfa'r ward a châi canlyniadau'r archwiliad eu harddangos ar y ward ar gyfer y cleifion a'r staff.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Mynegodd yr holl gleifion a pherthnasau eu bod yn hapus â'r staff a'r driniaeth a dderbynnir yn Ysbyty Eryri.

Siaradom ag amryw o gleifion ar wardiau Padarn a Pheblig yn ystod yr arolygiad a chael wyth holiadur AGIC yn ôl, wedi'u llenwi gan y cleifion. Mynegodd amryw o gleifion sylwadau cadarnhaol ychwanegol megis:

“Mae'r staff yn hyfryd, yn amyneddgar ac yn ystyriol. Mae'r meddygon yn hyfryd, gallwch chi ofyn unrhyw beth iddyn nhw”

“maen nhw i gyd [staff] yn neis iawn a charedig – nid ata i'n unig ond at bawb”

“mae'r staff yn ardderchog yma”

“mae'r staff yn gwneud eu gorau glas i wneud ichi deimlo'n gyfforddus”

Er bod staff yn brysur iawn roedd awyrgylch hamddenol a chroesawgar ar y wardiau.

Roedd ardaloedd y ward yn amlwg yn lân ac yn rhydd o flerwch ar y cyfan. Sylwom fod y gofod rhwng rhai o'r gwelyau yn y cilfachau yn gyfyngedig a bod rhai o'r cleifion a eisteddai ar erchwyn eu gwely felly'n eistedd yn agos iawn at glaf arall. Roedd perygl y byddai hyn yn lleihau preifatrwydd cleifion ac yn achosi i rywun faglu.

Roedd ystafell ddydd ar bob ward ac roedd yr ystafelloedd hyn wedi'u dodrefnu a'u haddurno'n ddymunol. Roedd gan bob cilfach deledu a chloc mawr, gan ganiatáu elfen o annibyniaeth i gleifion. Roedd ystafelloedd eraill ar gael yn yr ysbyty, fodd bynnag nid oedd nifer o'r ystafelloedd hyn, megis ystafell fawr ar ward Padarn, yn cael eu defnyddio gan gleifion ar hyn o bryd.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Gwnaethom arsylwi ar staff yn trin cleifion â pharch; roeddent yn gwrtais ac yn sylwgar o anghenion y cleifion. Gwelsom arferion gwaith nodedig, gan gynnwys cyfleusterau i gynorthwyo cleifion i adennill eu hannibyniaeth, y llyfrau cyfathrebu a ddefnyddir gyda chleifion a'r cymorth a roddir iddynt gyda'u gofal personol ac ymataliaeth.

Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion i'r bwrdd iechyd ystyried amrywiaeth ehangach o ffyrdd cyfathrebu ar gyfer cleifion sydd ag anghenion ychwanegol, ac i sicrhau bod cyfathrebiadau ysgrifenedig yn gyfredol.

Er bod amseroedd ymweld penodol gwelsom fod hyblygrwydd a bod perthnasau'n gallu ymweld y tu hwnt i'r amseroedd hyn, ac aros dros nos pan oedd hynny er budd y claf. Sylwom yn gyffredinol fod y ward yn amgylchedd addas i gleifion orffwys a chysgu yn ystod y dydd.

Wrth sgwrsio â chleifion nodwyd bod eu hanghenion glendid personol yn cael eu diwallu. Gwelsom fod cleifion yn ymddangos yn drwsiadus ac yn amlwg yn cael gofal da. Roedd gan gleifion ddewis o brydau ac ni frysiodd amser bwyd. Rydym wedi argymhell gwelliannau o ran cydlynu'r amser bwyd ac, yn achos Ward Peblig, wrth gofnodi pa hylifau a phrydau a gymrir gan y cleifion.

Gwelsom fod asesiadau'r cleifion yn cynnwys unrhyw gymorth angenrheidiol gydag iechyd y geg a gofal ymataliaeth, ac roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael eu cefnogi'n dda yn y meysydd hyn. Câi'r cleifion eu trin ag urddas drwy eu bod yn cael cymorth i fynd i'r toiled, ac felly nid oedd angen iddynt ddefnyddio comôd. Wrth adolygu'r ddogfennaeth gwelwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud rhag i bobl ddatblygu briwiau pwyso.

Gwnaed argymhelliad ar wahân yn syth ar ôl yr arolygiad, ynghylch lefelau staffio a hyfforddiant, a thrafodir hyn ymhellach yn adran Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn.

Cyfathrebu a gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a ffordd sy'n ystyriol o'u hanghenion.

Gwelsom enghreifftiau da o ddulliau cyfathrebu'n cael eu defnyddio. Roedd amryw o'r cleifion yn siarad Cymraeg a chlywsom amryw o'r staff yn sgwrsio â nhw yn Gymraeg. Roedd hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar bob ward er mwyn hyrwyddo sgiliau cyfathrebu effeithiol. I hwyluso cyfathrebu gyda phobl sydd â'i lleferydd wedi cael ei effeithio gan strôc, crëwyd llyfrau unigol i'r

cleifion gan y therapydd iaith a lleferydd, mewn cydweithrediad â'r claf a'i berthnasau.

Rhannwyd cylchdaith wythnosol y ward ymhlith ymgynghorydd y ward, y staff nyrsio a'r therapyddion. Arsylwom ar ran o gyfarfod ar un o'r diwrnodau y cynhaliom yr archwiliad a gwelsom fod staff yn gynnil a sensitif wrth drafod anghenion cleifion. Gwnaeth cleifion a pherthnasau gadarnhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth a'u cynllun rhyddhau.

Cyfngedig oedd y cyfleusterau i hyrwyddo annibyniaeth cleifion. Er enghraifft, nid oedd arwyddion darluniadol ar ddrysau'r toiled a'r ystafell ymolchi, ac nid oedd system dolen sain ar y ward ar gyfer pobl â nam ar eu clyw, er inni weld arwydd dolen sain yn y dderbynfa wrth gyrraedd yr ysbyty. Canfuom fod yna gyflenwad da o fatris cymhorthion clyw ar gyfer cleifion.

Roedd ystod o wybodaeth wedi'i harddangos wrth fynedfa'r wardiau, ac ar hysbysfyrddau o fewn y wardiau. Roedd angen diweddarau rhywfaint o'r wybodaeth hon, er enghraifft, y weithdrefn gwyno. Gofynnem iddynt dacluso'r wybodaeth a gedwir yn y raciau taflenni a chael gwared ar hen wybodaeth.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwybodaeth gyfoes ar gael i gleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno amrywiaeth ehangach o ffyrdd cyfathrebu, er enghraifft arwyddion darluniadol, ar gyfer cleifion sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol.

Gwelsom fod botwm seinio o fewn cyrraedd i'r cleifion a dywedon nhw wrthym fod staff yn ymateb yn brydlon ar ôl iddynt alw am gymorth.

Parchu pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, a rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.

Gwelsom staff yn ymateb yn sylwgar i anghenion cleifion ac yn siarad â phobl yn gynnes a chyda pharch. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Er bod y staff yn brysur iawn gwelsom nad oedd gormod o frys i'r gofal a roddwyd i unigolion. Roedd cofnodion nyrsio yn cofnodi galluoedd unigol pob claf yn glir. Roedd llenni'n cael eu tynnu o gwmpas y gwely er mewn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Hybu annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r unigolyn i fanteisio i'r eithaf ar eu gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gynnal cymaint o annibyniaeth ag sy'n bosibl o fewn amgylchedd ysbyty. Roedd yna gyflenwad da o gyfarpar megis cymhorthion cerdded; roedd rhai o gyfleusterau'r ffisiotherapyddion yn rhagorol ac yn cynnwys ystafell ymarfer fawr oedd â chegin fach ac amryw o ddarnau o gyfarpar er mwyn asesu a hyrwyddo annibyniaeth y cleifion.

Pan fo angen, dywedodd y therapyddion wrthym eu bod yn cynnal ymweliadau cartref gyda'r claf cyn iddynt gael eu rhyddhau. Yn ystod yr adeg hon gwneir asesiad o amgylchedd cartref y claf a rhoddir ystyriaeth i newidiadau neu gyfarpar a allai fod yn angenrheidiol pan gânt eu rhyddhau.

Ar adeg ein harolygiad gwelsom therapydd galwedigaethol a ffisiotherapydd yn trin cleifion. Fodd bynnag roedd prinder staff yn gyffredinol yn y gwasanaethau therapi a golygai hyn nad oedd cleifion bob amser yn derbyn y gwasanaeth adsefydlu llawn, yn unol â'u hasesiad. Felly roedd perygl bod oedi gyda chynnydd cleifion ac nad oedd y broses adsefydlu yn digwydd mor gyflym ag a fyddai'n bosibl fel arall. Er bod darpariaeth y gofal yn dda, sylwom hefyd fod y staff nyrsio a gofal iechyd yn brysur tu hwnt yn ystod y boreau ac roedd amheuaeth gennym ynghylch p'un a oedd y lefelau staffio yn ddigonol ar gyfer gwneud y mwyaf o botensial y cleifion i adsefydlu. Mynegodd sawl aelod o staff wrthym nad oedd y lefelau staffio bob amser yn ddigonol ac ar yr adegau prysuraf roeddent yn bryderus ynghylch yr effaith ar ofal a diogelwch y cleifion.

Anfonwyd llythyr gweithredu ar unwaith ynghylch lefelau staffio a hyfforddiant staffio at y bwrdd iechyd lleol yn syth ar ôl yr arolygiad. Ers hynny mae'r bwrdd iechyd wedi ymateb i gynllun gwella AGIC, a oedd yn cynnwys cynyddu'r lefelau staffio ar Ward Pablig ar unwaith. Mae ymateb y bwrdd iechyd lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn yn cael ei ddilyn gan AGIC ar hyn o bryd.

Perthynas ag eraill

Rhaid annog pobl i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau a datblygu perthynas â phobl eraill yn unol â'u dymuniadau.

Câi oriau ymweld eu cyfyngu'n gyffredinol i awr yn gynnar yn y prynhawn ac awr yn gynnar gyda'r nos. Fodd bynnag, cadarnhaodd staff wrthym fod hyblygrwydd o ran caniatáu i berthnasau ymweld rhwng yr amseroedd hyn. Yn ystod ein harolygiad sylwom ar berthnasau'n ymweld o fewn yr oriau ymweld hyn, a thu allan iddynt.

Ni welsom gleifion na pherthnasau'n defnyddio'r ystafelloedd dydd yn ystod ein harolygiad. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym fod yr ystafelloedd hyn

yn cael eu defnyddio o dro i dro, er enghraifft pan fo cleifion a/neu berthnasau eisiau preifatrwydd neu amser tawel i ffwrdd o amgylchedd y ward.

Mae ystafelloedd sengl *en suite* ar y ddwy ward. Nid oes ystafell sydd wedi cael ei dynodi ar gyfer perthnasau sydd am aros dros nos, ond dywedodd staff wrthym y gellir gwneud trefniadau i roi llety i berthnasau agos. Gwelsom fod perthnasau claf wedi aros mewn ystafell sengl gyda'r claf ar y noson cyn ein harolygiad.

Nid oes gwasanaeth ffôn cyhoeddus ar gyfer cleifion ond gellir mynd â ffôn cludadwy'r ysbyty at y claf pan fydd ei berthnasau'n ffonio, fel y gwelsom yn ystod ein harolygiad.

Gorffwys, cysgu a gweithgareddau

Rhoddir ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl fel y gallant orffwys a chysgu.

Sylwom yn gyffredinol fod y ward yn amgylchedd addas i gleifion orffwys a chysgu yn ystod y dydd. Sylwom fod y cleifion yn edrych yn gyfforddus ac yn symud bob yn ail o'u gwely i'r gadair yn ystod y dydd, yn ôl eu dymuniad. Gallai rhai cleifion gerdded o gwmpas y ward a'r ardal gyfagos yn annibynnol.

Roedd digon o ddillad gwely a gobenyddion ar gyfer cleifion oedd eisiau rhagor o ddillad gwely a gwelsom fod gan gleifion niferoedd amrywiol o obenyddion ar eu gwelyau. Dywedodd y cleifion nad oeddent yn cael eu deffro'n rhy gynnar yn y bore.

Roedd gan bob cilfach deledu ac nid oedd y sŵn yn rhy uchel. Roedd gan ddau glaf eu set radio eu hunain a oedd hefyd ymlaen ond nad oedd yn amharu ar gleifion eraill. Gwelsom lawer o gleifion yn darllen papurau newydd, oedd yn cael eu dosbarthu i'r ward yn ddyddiol gan fudiad gwirfoddol.

Sicrhau cysur a lleddfu poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac mor ddi-boen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.

Ar sail ein hadolygiad o ddogfennau gwelsom fod siartiau meddyginiaeth yn cael eu llenwi'n rheolaidd ar y ddwy ward, ond bod y defnydd o ddulliau asesu poen yn anghyson. Roedd y ddogfennaeth asesu poen ar Ward Padarn yn dda ac roedd tystiolaeth ysgrifenedig bod poen cleifion yn cael ei hasesu a meddyginiaeth yn cael ei rhoi yn unol â hynny. Serch hynny, er inni weld claf yn cael ei holi ynghylch a oedd eisiau meddyginiaeth ar gyfer poen, ni chwblhawyd unrhyw ddogfennaeth ac nid oedd asesiad poen yng nghofnodion y claf. Cawsom wybod na ddefnyddid dogfennaeth benodol ar asesu poen ar y ward hon, a olygai nad oedd tystiolaeth ddogfennol ar gael i ddynodi pa mor

aml yr oedd staff yn asesu cysur a phoen y cleifion, neu p'un a oeddent yn monitro bod meddyginiaeth lleddfau poen yn effeithiol mewn gwirionedd.

Argymhelliad

Dylai'r bwrdd iechyd wella'r system o fonitro cysur a phoen y cleifion (Ward Peblig).

Glendid personol, ymddangosiad a gofal traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl wrth ofalu am eu hylendid personol, eu hymddangosiad a'u traed.

Wrth sgwrsio â chleifion nodwyd bod eu hanghenion glendid personol yn cael eu diwallu. Gwelsom gleifion yn cael cymorth gyda'u gofal personol yn ystod y bore a diogelodd y staff eu preifatrwydd a'u hurddas drwy gydol yr amser. Gwelsom fod y cleifion a oedd angen cymorth yn ymddangos yn drwsiadus ac yn amlwg yn cael gofal da. Pan oedd angen byddai staff yn gwneud trefniadau i olchi dillad y cleifion a darparu dillad yn eu lle, a chadarnhawyd hyn gan y staff a chan un claf mewn sgwrs.

Dywedodd y cleifion wrthym fod person yn dod i drin gwallt ar y wardiau unwaith yr wythnos.

Ni wnaethom arolygu gofal traed yn ystod yr arolygiad hwn.

Bwyta ac Yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n bodloni eu gofynion maethol a phersonol, a dylid darparu unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Arsylwom ar bryd bwyd amser cinio a gwelsom fod cleifion yn bwyta'u prydau wrth erchwyn y gwely; cliriwyd bwrdd y cleifion cyn i'r prydau gyrraedd. Darparwyd pecyn o glytiau sychu dwylo i'r cleifion ar Ward Peblig cyn amser bwyd ond ni ddywedodd yr aelod o staff beth ydoedd ac ni chynigiodd i agor y pecyn i'r cleifion. Sylwom nad agorwyd y rhan fwyaf ohonynt. Ar Ward Padarn darparwyd y clytiau sychu dwylo ar ôl i'r cleifion orffen eu pryd bwyd.

Gwelsom y fwydlen ar gyfer brecwast, cinio a the ar gyfer y diwrnod canlynol. Roedd dewis o brif brydau poeth ac oer, a melysion, a baratowyd yn ffres ar eu cyfer yng nghegin yr ysbyty. Roedd y prydau'n ymddangos yn flasus ac roedd digon o fwyd yn gyffredinol ar y plât; dywedodd y cogydd wrthym y rhoddir llai o fwyd ar gais, neu i gleifion yr aseswyd bod angen iddynt gael prydau llai o faint. Gwelsom restr o anghenion dietegol arbennig y cleifion yn y gegin. Roedd angen cymorth aelod o staff ar rai cleifion yn ystod y prydau bwyd ac arsylwom ar staff yn cynnal sgwrs â nhw ac yn aros tan eu bod wedi gorffen eu prydau. Arsylwom nad oedd gormod o frys ar amserau bwyd ar y cyfan.

Nid oedd system Hambwrdd Coch, a ddefnyddir yn gyffredin mewn lleoliadau gofal er mwyn dynodi pa gleifion sydd angen cymorth adeg bwyd, yn cael ei defnyddio yn Ysbyty Eryri, ond roedd Ward Padarn yn defnyddio caead coch ar jygiau dŵr er mwyn dynodi pa gleifion oedd â chyfyngiadau o ran yfed hylif. Darparwyd dŵr ffres i'r cleifion bob bore ond ni châi'r jygiau dŵr eu gwacáu a'u hadnewyddu'n rheolaidd yn ystod y dydd. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael cynnig diodydd drwy gydol y dydd ac arsylwom ar ddiodydd poeth yn cael eu cynnig ar adegau gwahanol yn ystod ein harolygiad.

Sylwom nad oedd un claf ar Ward Peblig wedi bwyta'i ginio o gwbl, er gwaethaf anogaeth gan gynorthwydd gofal iechyd. Pan wnaethom wirio cofnod y claf trannoeth, gwelsom fod y cofnodion dyddiol ar gyfer yr amser cinio hwnnw yn anghywir. Cwblhawyd y cofnod gan aelod arall o staff a nododd fod y person wedi bwyta'n dda. Yng nghofnodion y claf roedd asesiad risg a nododd ei fod yn fwytwr sâl ond oherwydd nad oedd pryderon ynghylch ei bwysau cawsom wybod nad oedd siart fwyd yn cael ei chadw ar ei gyfer. Nododd y cofnodion dyddiol fod y claf wedi bod yn anesmwyth yn hwyrach y noson honno oherwydd rhwymedd ac anymataliaeth. Gallai'r ffaith nad oedd y claf wedi bwyta llawer y diwrnod hwnnw fod wedi gwaethygu ei anesmwythder. Ni allwn fod yn hyderus felly bod deiet a maeth y cleifion yn cael ei fonitro'n ddigonol ar Ward Peblig a bod y cofnodion dyddiol yn adlewyrchiad cywir o'r prydau a fwyteir gan y cleifion.

Argymhelliad

Gwella'r modd o gydlynu amserau bwyd, gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo cyn prydau, system i ddynodi pa gleifion sydd angen cymorth neu'r rhai y cyfyngwyd ar faint o hylif cânt ei yfed.

Sicrhau bod cofnodion ar Ward Peblig, yn arbennig yn ymwneud â'r hylifau a'r prydau a gymerir gan gleifion, yn gwella.

Bod stoc o fwyd yn cael ei gadw ar y ward ar gyfer pan fo'r gegin ar gau dros nos.

Iechyd a glendid y geg

Rhaid cefnogi pobl i gadw eu cegau'n iach ac yn gyfforddus, a'u dannedd a'u deintgig yn rhydd o boen, er mwyn eu galluogi i fwyta'n dda ac i rwystro problemau cysylltiedig.

Wrth adolygu'r ddogfennaeth gwelsom fod iechyd y geg y cleifion yn cael ei asesu wrth iddynt gael eu derbyn i'r ward a gwelsom dystiolaeth bod cleifion llai annibynnol yn cael cymorth gyda'u hiechyd y geg.

Roedd cyflenwad o frwsys dannedd a phast dannedd ar gael i'r cleifion hynny a oedd heb gyflenwad eu hunain. Roedd blychau addas ar gael i'r cleifion er mwyn cadw dannedd gosod.

Anghenion toiled

Rhaid darparu cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, a chan styried preifatrwydd ac unrhyw anghenion penodol.

Gwelsom fod asesiadau'n cynnwys anghenion gofal toiled ac ymataliaeth y cleifion. Arsylwom ar y cleifion yn cael eu trin ag urddas drwy eu bod yn cael cymorth i fynd i'r toiled yn hytrach na bod rhaid iddynt ddefnyddio'r comôd wrth y gwely. Roedd y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn lân ac yn drefnus, ac roedd ynddynt gyfleusterau golchi dwylo addas a thywelion papur er mwyn atal croes-heintio.

Roedd cyflenwad o gynnyrch ymataliaeth ar gael ar y wardiau. Gwelsom fod cynnyrch yn cael ei archebu yn benodol ar gyfer anghenion unigol y claf, yn dilyn asesiad.

Rhodddwyd botwm seinio'r cleifion o fewn cyrraedd hawdd i'w cadair neu'u gwely a chadarnhaodd y cleifion fod staff fel arfer yn ymateb pan fyddant yn galw am gymorth.

Atal Briwiau Pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Wrth adolygu'r ddogfennaeth gwelwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud rhag i bobl ddatblygu briwiau pwyso. Gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu cwblhau a bod cyfarpar, megis matresi aer, yn cael eu cyflenwi i gleifion yn unol â'r asesiadau. Caiff y modd y gweithredir bwndeli SKIN Cymru Gyfan¹ ei fonitro a'i ddiweddarau'n rheolaidd gan staff er mwyn lleihau'r perygl y bydd cleifion yn datblygu briwiau pwyso. Rhodddwyd y canlyniadau hyn ar hysbysfwrdd ym mhob ward.

Roeddem o'r farn bod yr arfer o gynorthwyo pobl i fynd i'r toiled, a'u hannog i symud drwy hynny, o gymorth wrth atal briwiau pwyso.

Wrth adolygu'r ddogfennaeth cadarnhawyd bod staff yn ymgymryd â rowndiau rheolaidd o gwmpas cleifion y ward (cyfeirir ato fel cylchdaith fwriadol) er

¹ Mae bwndeli SKIN yn fodd o fonitro bod cleifion yn derbyn gofal priodol er mwyn atal niwed yn sgil pwysau ar y croen.

mwyn newid safle'r cleifion a lleddfu unrhyw bwysedd sy'n gysylltiedig ag aros yn y gwely, neu yn yr un safle, am gyfnodau hir.

Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Er inni weld bod staff yn garedig ac yn ofalgar tuag at y cleifion, a bod y ddarpariaeth gofal yn dda, nid oedd y lefelau staffio bob amser yn ddigonol er mwyn rhoi'r gofal adsefydlu sy'n ofynnol. Felly gwnaethom anfon llythyr sicrwydd ar unwaith at y bwrdd iechyd lleol yn syth ar ôl yr arolygiad, a oedd yn cynnwys hyfforddiant staff a darpariaeth datblygu staff. Ers hynny mae'r lefelau staffio wedi cael eu cynyddu gan y bwrdd iechyd a darparwyd amserlen ar gyfer hyfforddiant i staff. Mae ymateb ysgrifenedig cyffredinol y bwrdd iechyd i AGIC yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd.

Wrth graffu ar gofnodion asesu a chynllunio gofal gwelwyd tystiolaeth o gofnodi rhagorol gan y staff nyrsio a gofal iechyd. Rydym wedi argymhell gwelliannau i gofnodion therapi, a oedd yn ymwneud yn benodol ag un aelod o staff.

Nid oedd gan gleifion fynediad hawdd at y weithdrefn gwyno, ac roedd angen diweddarau'r daflen a welsom. Gwnaethom argymhell felly bod gweithdrefn gwyno gyfredol ar gael.

Ar adeg ein harolygiad roedd gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r strwythur rheoli cyffredinol ar gyfer Ysbyty Eryri, a chaiff AGIC ei hysbysu o'r canlyniad maes o law.

Lefelau staffio, cymysgedd sgiliau, ac atebolrwydd proffesiynol

Ar adeg ein harolygiad ni chafodd dau o'r gwelyau ar Ward Padarn eu defnyddio oherwydd prinder staff. Roedd y 18 gwely arall ar gyfer gwagedd yn cael eu defnyddio ac roedd tair nyrs staff a thri chynorthwydd gofal iechyd yn darparu gofal ar y ward hon. Yn ystod y nos roedd niferoedd y staff yn gostwng i ddwy nyrs ac un cynorthwydd gofal iechyd. Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad nid oedd uwch nyrsys/rheolwr ar y ward hon am eu bod wedi cymryd gwyliau blynyddol; fodd bynnag, cawsom wybod bod y rheolwr neu uwch nyrs ar ddyletswydd bob amser yn ystod y dydd, fel arfer.

Roedd 14 claf ar Ward Peblig gyda dwy nyrs gofrestredig, dau gynorthwydd gofal iechyd a rheolwr nyrsio. Yn ystod y nos roedd niferoedd y staff yn gostwng i un nyrs ac un cynorthwydd gofal iechyd.

Dywedodd rhai o'r staff wrthym fod lefelau staffio yn isel yn ystod y nos, yn arbennig ar Ward Peblig, a bod y lefelau staffio ar benwythnosau hefyd yn annigonol ar y ward hon (sy'n cynnwys dwy nyrs, neu un nyrs a'r rheolwr nyrsio, a dau gynorthwydd gofal iechyd). Cafodd Ward Peblig ei rhannu rhwng dwy gilfach ac adain a oedd yn cynnwys chwe ystafell en suite ar gyfer cleifion sydd angen gofal lliniarol neu ddiwedd oes. Yn ystod ein harolygiad gwelsom fod llawer o'r cleifion ar Ward Peblig angen gofal a chymorth ar

raddfa ddwys a bod rheolwr y ward a'r nyrsys dan hyfforddiant, ar adegau, yn cyfrannu tuag at y staff nyrsio cyffredinol.

Dywedodd dau aelod o staff Ward Peblig wrthym fod ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol ar benwythnosau i ddiweddarau dogfennaeth, gan gynnwys cynlluniau gofal ac archwiliadau gofal ymataliaeth, rheoli heintiau, briwiau ar y croen, ac yn y blaen. Fel rheol byddai'r rhain yn cael eu gwneud gan reolwr y ward neu uwch nyrs, ond gan nad oes uwch nyrs ar y ward hon cânt eu gwneud gan nyrsys staff a rheolwr y ward (os yw ar ddyletswydd) ar benwythnosau.

Fe'n hysbyswyd bod dau ddigwyddiad difrifol wedi digwydd ar Ward Peblig yn y mis diwethaf (yn ystod y nos) pan gafodd dau glaf anafiadau yn dilyn codwm. Roedd digwyddiad difrifol arall ar y ward yn ystod y nos rhwng ein hymweliadau arolygu. Fe'n hysbyswyd gan reolwyr bod ceisiadau'n cael eu gwneud yn aml am ragor o aelodau staff yn unol ag anghenion y cleifion. Fodd bynnag, bu adegau pan na lwyddon nhw i gael aelod o staff ychwanegol.

Er inni weld staff yn rhyngweithio'n ofalgar gyda chleifion, roeddem o'r farn bod diogelwch y cleifion yn cael ei beryglu ar Ward Peblig gan gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys lefelau staffio isel yn ystod y nos ac ar benwythnosau, siâp a chynllun y ward, a dwyster/cymhlethdod anghenion y cleifion.

Cawsom sgwrs ynghylch sut y cyfeirir y materion hyn yn uwch ac fe'n hysbyswyd bod pryderon ynghylch lefelau staffio yn cael eu cyfeirio drwy gyfrwng yr uwch reolwr. Wrth drafod â'r rheolwr ardal canfuom fod ei rôl hi'n cwmpasu goruchwyllo rheolaeth gwasanaethau amrywiol eraill o fewn y bwrdd iechyd lleol, yn ogystal â'r wardiau i gleifion mewnol. Gwnaeth AGIC drafod ein pryderon ynghylch gallu rheolwr y ward a'r rheolwr ardal i ymdrin â materion staffio'n gyflym (yn sgil eu hymrwymadau gwaith beichus nhw eu hunain). Gallai'r rhain arwain at beryglon ychwanegol o ran diogelwch y cleifion, neu at oedi gyda rhai materion, neu eu bod yn cael eu monitro a'u cynnal yn annigonol.

Anfonodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith at y bwrdd iechyd lleol yn syth ar ôl yr arolygiad ac ers hynny fe'n hysbyswyd bod lefelau staffio wedi cael eu cynyddu.

Systemau effeithiol ar gyfer trefnu gofal clinigol

Mae'r ddwy ward yn derbyn cleifion sydd wedi eu trosglwyddo o Ysbyty Gwynedd. Mae Ward Peblig hefyd yn rhoi gofal i hyd at chwe chlaf gofal lliniarol sy'n cael eu derbyn yno o ysbytai, neu'n uniongyrchol o'u cartref trwy gyfrwng atgyfeiriad gan y tîm gofal lliniarol. Mae cyfleusterau ar wahân ar gyfer ffisiotherapi a therapi galwedigaethol ar gael yn adeilad yr ysbyty.

Ac eithrio un cofnod bwyd anghywir ar Ward Peblig (fel y nodwyd ar dudalen 11), gwelwyd tystiolaeth o gofnodi rhagorol gan y staff wrth graffu ar nodiadau meddygol a nyrsio eraill. Cafodd anghenion gofal y cleifion eu cofnodi'n glir

mewn perthynas â'u dymuniadau a'u hoffterau a'u hasesiadau risg cysylltiedig. Roedd rhywfaint o ddyblygu fodd bynnag, yn yr ystyr bod nyrsys weithiau'n cofnodi'r un wybodaeth yn nodiadau meddygol, nodiadau nyrsio a chofnodion dyddiol y claf. Cynigiwn felly fod llai o'r dyblygu hwn yn digwydd, lle bo'n bosibl.

Ar y cyfan roedd systemau effeithiol ar waith wrth drefnu gofal clinigol, ond roeddem o'r farn mai cyfyng ydoedd, gan nad oedd y lefelau staffio bob amser yn ddigonol i roi'r gofal adsefydlu llawn sydd ei angen ar y cleifion. Dywedodd rhai o'r staff wrthym fod cymhlethdod anghenion y cleifion wedi cynyddu ond bod y lefelau staffio wedi gostwng. Roedd llawer o gleifion wedi cael eu trosglwyddo i Eryri yn dilyn strôc ac roedd un o'r ymgynghorwyr sy'n gysylltiedig â'r ward yn arbenigo mewn gofal strôc. Fodd bynnag, roedd effeithiolrwydd y gwasanaeth hwn yn cael ei beryglu gan y lefelau staffio presennol a'r cymysgedd sgiliau. Felly roedd perygl bod oedi yng ngwellhad rhai cleifion yn sgil y materion staffio; yn wir nid oedd dau glaf yn derbyn therapi iaith a lleferydd yn unol â'u hanghenion asesedig. Yn y cyfamser roedd staff yn gwneud eu gorau i gyfathrebu'n effeithiol â'r ddau glaf ac yn defnyddio'r llyfrau cyfathrebu a ddechreuwyd gan y therapydd iaith a lleferydd.

Defnyddiodd un o'r therapyddion gôd er mwyn dynodi nad oedd wedi darparu'r gwasanaeth adsefydlu llawn a oedd wedi'i bennu ar gyfer y naill glaf a'r llall. Roedd hi felly'n amhosib gwirio faint o ofal adsefydlu a roddwyd, os o gwbl. Fe'n hysbyswyd ar lafar bod rhywfaint o ofal adsefydlu wedi'i ddarparu ond roedd yn brin o'r amser llawn a gafodd ei bennu. Gan fod y côd yn rhy amwys cytunodd y rheolwr i ddweud wrth y therapydd am roi'r gorau i ddefnyddio'r côd ar unwaith, ac i nodi'r union amser a dreulir gyda'r claf.

Argymhelliad

Sicrhau bod therapyddion yn cadw cofnodion sy'n adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth adsefydlu a ddarperir, gan gynnwys ei hyd.

Rhoddyd sampl inni o nodiadau cyfarfodydd tîm. Cynhaliwyd cyfarfodydd ardal yn rheolaidd (gan gwmpasu Ysbyty Eryri yn ei gyfanrwydd, y gwasanaeth nyrsio ardal a'r tîm gofal canolraddol) ond nid oedd rheolwyr ward Padarn a Pheblig yn gallu mynychu bob amser oherwydd eu hymrwymiaadau gwaith beunyddiol. Cynhaliwyd y cyfarfod tîm rheoli diwethaf a oedd yn benodol i Ysbyty Eryri ym mis Ionawr 2014, ac felly roeddem o'r farn nad oedd y pwyslais ar wasanaethau i gleifion bob amser yn cael ei gynnal. Pan wnaethom siarad yn hwyrach â rhai o reolwyr y bwrdd iechyd deallom fod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu strwythur rheoli cyffredinol Ysbyty Eryri, a chyflenwad y gwasanaeth yno.

Argymhelliad

Adolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn gyffredinol er mwyn lleihau'r oedi wrth weithredu materion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cleifion mewnol yn Ysbyty Eryri.

Adolygu'r cynlluniau tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau cleifion mewnol yn Ysbyty Eryri a sicrhau bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn ddigonol at y diben hwn.

Hyfforddiant a datblygiad

Nodwyd drwy sgysiau gydag aelodau staff nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant i'w cynorthwyo i ddiwallu anghenion y cleifion. Er enghraifft, nid oedd yr un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, neu ddementia neu strôc.

Roedd angen diweddarau hyfforddiant rhai o'r staff, gan gynnwys meysydd tân, codi a chario, rheoli heintiau, sgiliau bywyd sylfaenol, a/neu gynnal bywyd ar frys. Roedd amryw o resymau am hyn, gan gynnwys bod rhai o'r staff wedi canslo hyfforddiant er mwyn sicrhau bod shifftiau'n cael eu cyflenwi; cafodd un cwrs ei ganslo gan yr hyfforddwr a bu trafferth wrth ddod o hyd i rai mathau o hyfforddiant. Roedd y rheolwr ardal felly'n ystyried dulliau ychwanegol o ddarparu hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fewnol a thrwy gyfrwng cyrsiau e-ddysgu.

Argymhelliad

Anfonodd AGIC lythyr gweithredu ar unwaith ynghylch hyfforddiant yn syth ar ôl yr arolygiad. Ers hynny mae'r bwrdd iechyd wedi trefnu rhagor o hyfforddiant ar gyfer y staff ac mae ymateb cyffredinol y bwrdd iechyd yn cael ei ddilyn gan AGIC ar hyn o bryd.

Ymdrin â chwynion a phryderon

Dywedodd uwch staff wrthym y byddent yn ceisio datrys pryder neu gŵyn ar lefel y ward. Caiff yr holl gwynion eu logio a'u cyfeirio at y tîm pryderon canolog yn Ysbyty Gwynedd.

Ni lwyddom i ddod o hyd yn hawdd i wybodaeth am weithdrefnau cwyno'r ysbyty. Daethom o hyd i daflen gwynion oedd â'i hoes wedi darfod ar rac wrth fynedfa Ward Peblig, ac roedd yn perthyn i'r bwrdd iechyd blaenorol. Golygai hyn nad oedd gan bobl a'u perthnasau fynediad hawdd at wybodaeth ysgrifenedig ddiweddar ynglŷn â sut i wneud cwyn. Darparwyd copi inni o weithdrefn gwyno'r bwrdd iechyd lleol a chanfuom fod systemau ar waith er mwyn ymdrin yn foddhaol â chwynion, ac ymateb iddynt.

Argymhelliad

Sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ynghylch gweithdrefn gwyno'r ysbyty ar gael i gleifion.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid bod yn rhagweithiol wrth hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles

Anfonodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith at y bwrdd iechyd lleol yn syth ar ôl yr arolygiad. Roedd hwn mewn perthynas â lefelau staffio a hyfforddiant staff, er mwyn sicrhau nad yw iechyd, diogelwch na lles y cleifion yn cael eu peryglu. Hysbyswyd AGIC bod y lefelau staffio wedi cael eu cynyddu gan y bwrdd iechyd ers hynny. Mae ymateb cyffredinol y bwrdd iechyd yn cael ei ddilyn gan AGIC ar hyn o bryd.

Arsylwom ar rownd feddyginiaeth ar Ward Padarn yn ystod yr arolygiad, ac at ei gilydd gwelsom dystiolaeth o weithdrefnau meddyginiaeth diogel ac effeithiol. Rydym wedi argymhell gwelliannau o ran archwilio cofnodion sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth a chyffuriau a reolir.

Rheoli risgiau

Fe'n hysbyswyd gan staff fod digwyddiadau clinigol difrifol yn cael eu hadrodd drwy system Datix². Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd adolygu a gynhaliwyd er mwyn trafod digwyddiadau difrifol, a'r camau dilynol a'r gwersi a ddysgwyd. Dywedodd y rheolwr ardal wrthym fod cyfarpar newydd ar gyfer agor a chau drysau awtomatig y wardiau wedi cael ei osod yn gynharach eleni, er mwyn lleihau'r risg y byddai cleifion sydd â dementia yn crwydro oddi ar y ward ac allan o'r ysbyty.

Roedd un o'r camau a ddilynodd ddigwyddiad difrifol yn ymwneud ag asesiad aciwtedd³ ac er bod yr asesiad hwn wedi ei gynnal eisoes ni wnaeth arwain at gynyddu'r lefelau staffio; roedd asesiad arall yn ofynnol ym mis Ionawr 2015. O ystyried ein pryderon a'r digwyddiadau difrifol diweddar a ddigwyddodd ar Ward Peblig yn y nos, anfonom lythyr sicrwydd ar unwaith, fel y nodwyd eisoes ar dudalen 13 o'r adroddiad hwn. Mae ymateb cyffredinol y bwrdd iechyd yn cael ei ddilyn gan AGIC ar hyn o bryd.

Argymhelliad

Sicrhau bod strategaethau rheoli risg sy'n dilyn digwyddiadau difrifol yn gynaliadwy yn ymarferol, ac yn cael eu monitro.

² Dull o gofnodi, monitro a dadansoddi gwybodaeth ynghylch digwyddiadau difrifol yw meddalwedd DATIX.

³ Modd o asesu dibyniaeth cleifion yw asesiad aciwtedd, er mwyn pennu pa lefelau staffio sy'n ddiogel ar gyfer wardiau ysbyty.

Polisiâu, gweithdrefnau a chanllawiau clinigol

Cadarnhaodd staff wrthym eu bod yn gallu mynd at yr holl weithdrefnau a chanllawiau perthnasol ar system fewnrwyd y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn gallu cofio p'un a oedd yna ganllawiau penodol yn gysylltiedig â'u prif faes gwaith nhw, hynny yw, gofal adsefydlu ar gyfer pobl hŷn a phobl sydd wedi cael strôc. Nid oedd yr un o'r staff yn gallu cofio pryd y cawson nhw hyfforddiant amddiffyn oedolion agored i niwed (POVA) ac nid oedden nhw wedi cael unrhyw hyfforddiant yn unol â rhai o anghenion y cleifion, gan gynnwys dementia a strôc. Yn ystod yr arolygiad nid oedd tystiolaeth bod y diffyg hyfforddiant yn cael effaith negyddol ar ofal y cleifion. Fodd bynnag, gellid gwella'r gwasanaeth yn gyffredinol pe bai staff yn derbyn hyfforddiant penodol yn eu maes gwaith nhw.

Argymhelliad

Ystyried pa hyfforddiant arbenigol sy'n ofynnol er mwyn cyflenwi gwasanaethau Ysbyty Eryri ac i helpu staff i ddiwallu'r grŵp o gleifion penodol hwnnw.

Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol

Roedd tystiolaeth bod archwiliadau cyson yn cael eu cynnal ar raddfa'r ward a châi canlyniadau'r archwiliad eu harddangos ar y ward ar gyfer y cleifion a'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau mewn meysydd megis hylendid dwylo, rheoli heintiau, codymau a briwiau pwysu. Fe'n hysbyswyd bod gwybodaeth yn cael ei bwydo ar system metrigau gofal⁴ ond ni wnaethom arsylwi ar hyn y tro hwn.

Diogelwch y cleifion

At ei gilydd gwelsom fod y cilfachau a'r ystafelloedd ar y wardiau yn drefnus. Roedd gan yr holl gleifion a welsom fotwm seinio o fewn cyrraedd a dywedodd y cleifion fod staff yn ymateb yn dda ar y cyfan i alwadau am gymorth.

Gwnaethom gynnig fod y blwch cymorth cyntaf ar un coridor yn cael ei symud rhag bod damwain yn digwydd.

Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod yn edrych ar gael byrddau gwybodaeth newydd am gleifion er mwyn i wybodaeth ddiogelwch am gleifion fod ar gael i staff ar y wardiau yn syth.

⁴ Cafodd y System Metrigau Gofal ei datblygu gan y GIG fel modd o adolygu ansawdd y gofal a ddarperir gan ysbytai.

Fel y nodwyd eisoes, anfonodd AGIC llythyr sicrwydd ar unwaith ynghylch lefelau staffio. Ers hynny mae'r lefelau staffio yn gyffredinol wedi cynyddu, a chadarnhaodd y bwrdd iechyd lleol hyn mewn llythyr at AGIC.

Rheoli meddyginiaeth

Storio cyffuriau

Roedd meddyginiaethau wedi'u storio'n ddiogel dan glo mewn cypyrddau. Un tro gwelsom fod yr oergell feddyginiaeth wedi'i gadael ar agor trwy gangymeriad, a chywirwyd hyn ar ôl tynnu eu sylw at y mater.

Defnyddiwyd trolïau i ddsbarthu meddyginiaethau i gleifion a gwelsom fod posib eu cloi a'u bod yn cael eu goruchwylio drwy'r amser.

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu cadw'n briodol dan glo mewn cwpwrdd. Cedwid dyddiadur i ddynodi bod y cyffuriau a reolir wedi cael eu gwirio. Fodd bynnag, nid oedd y dyddiadur yn cyfeirio'n benodol at y cyffuriau a reolir a gafodd eu gwirio, ac felly nid oedd yn ddigon trylwyr at y diben hwn.

Argymhelliad

Gwella'r system o archwilio cyffuriau a reolir.

Paratoi cleifion a rhoi meddyginiaethau

Gwelsom hefyd fod yr holl gleifion yn gwisgo bandiau adnabod a bod diod ar gael iddynt gyda'u meddyginiaeth. Roedd y cleifion wedi'u gosod mewn safle addas ar gyfer derbyn eu meddyginiaeth. Rhoddwyd y feddyginiaeth gan ddwy nyrs a oedd wedi'u hyfforddi ac roedd ganddynt droli yr un at y diben hwn. Arsylwom ar nyrsys yn esbonio beth oedd diben y feddyginiaeth cyn ei rhoi, a threulion nhw ddigon o amser gyda'r cleifion wrth iddynt gymryd y feddyginiaeth.

Wrth inni archwilio sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth gwelsom fod tri chofnod yn wag felly nid oedd hi'n eglur a oedd y claf wedi derbyn/gwrthod, ynteu heb gael cynnig, y feddyginiaeth. Roedd ffurflen arall ar gyfer nodi meddyginiaeth a wrthodwyd gan y cleifion, ond nid oedd y ffurflen hon yn nodi enw'r claf felly roedd gennym amheuaeth ynghylch ei diben a'i gwerth. Fe'n hysbyswyd fod y ward wedi cael cyngor gan y bwrdd iechyd lleol i ddefnyddio'r log hwn.

Argymhelliad

Sicrhau bod cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gyflawn a bod trywydd archwilio clir ar gael ar gyfer meddyginiaethau a wrthodwyd gan gleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ymdrin â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella ddatgan yn glir sut a phryd y bydd y bwrdd iechyd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd ar Wardiau Padarn a Pheblig yn Ysbyty Eryri, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer hynny. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/ unedau eraill y bwrdd iechyd.

Pan gaiff ei gytuno, caiff Cynllun Gwella'r bwrdd iechyd ei gyhoeddi ar wefan AGIC a chaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus mewn perthynas ag urddas a gofal sylfaenol. Mae ymateb cyffredinol y bwrdd iechyd i lythyr sicrwydd ar unwaith AGIC yn cael ei adolygu gan AGIC ar hyn o bryd.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Eryri, Lôn Parc, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2YE

Ward/Adran: Padarn a Peblig

Dyddiad yr Arolygiad: 11 a 12 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Ddim yn berthnasol			
	Cyflenwi Hanfodion Gofal			
8	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwybodaeth gyfoes ar gael i'r cleifion. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno amrywiaeth ehangach o ffyrdd cyfathrebu,			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	er enghraifft arwyddion darluniadol, ar gyfer cleifion sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol.			
10	Dylai'r bwrdd iechyd wella'r system o fonitro cysur a phoen y cleifion (Ward Peblig).			
12	<p>Gwella'r modd o gydlynu amserau bwyd, gan gynnwys y cyfleusterau golchi dwylo cyn prydau, system i ddynodi pa gleifion sydd angen cymorth neu'r rhai y cyfyngwyd ar faint o hylif cant ei yfed.</p> <p>Sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud â'r hylifau a'r prydau a gymerir gan gleifion yn cael eu cofnodi a'u monitro'n briodol.</p>			
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
	Sicrhau bod therapyddion yn cadw cofnodion sy'n adlewyrchu'n gywir y			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
16	<p>gwasanaeth adsefydlu a ddarperir, gan gynnwys ei hyd.</p> <p>Adolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn gyffredinol er mwyn lleihau'r oedi wrth weithredu materion mewn perthynas â chleifion mewnol yn Ysbyty Eryri.</p> <p>Adolygu'r cynlluniau tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau cleifion mewnol yn Ysbyty Eryri a sicrhau bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn ddigonol at y diben hwn.</p>			
17	<p>Sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ynghylch gweithdrefn gwyno'r ysbyty ar gael i gleifion.</p>			
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
18	<p>Sicrhau bod strategaethau rheoli risg sy'n dilyn digwyddiadau difrifol yn gynaliadwy yn ymarferol, ac yn cael eu monitro.</p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
19	Ystyried pa hyfforddiant arbenigol sy'n ofynnol er mwyn cyflenwi gwasanaethau Ysbyty Eryri ac i helpu staff i ddiwallu'r grŵp o gleifion penodol hwnnw.			
20	Gwella'r system o archwilio cyffuriau a reolir.			
20	Sicrhau bod cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gyflawn a bod trywydd archwilio clir ar gael ar gyfer meddyginiaethau a wrthodwyd gan gleifion.			

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: